

Dirnad Economi Cymru

Adroddiad blynyddol

Mehfin 2020

1. Cyflwyniad	5
2. Rhagolygon economaidd y DU a rhanbarthol	6
3. Y darlun o BBaCh Cymru: deall ffactorau sy'n llunio'r galw am gyllid	10
4. Darparu cyllid BBaCh a chost cyllid	19
5. Gweithgaredd Banc Datblygu Cymru	28
6. Casgliadau	41

Max Munday, Annette Roberts, Nikos Kapitsinis

Uned Ymchwil Economi Cymru, Ysgol Busnes Caerdydd
mundaymc@cf.ac.uk

Am wybodaeth bellach neu i gyflwyno adborth a chynigion ymchwil,
e-bostiwrch: Dirnadeconomi@bancdatblygu.cymru

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi cyngori ar gynhyrchu'r adroddiad hwn ond nid yw'n gyfrifol am y safbwyntiau neu'r ystadegau a gyflwynwyd ac nid yw wedi dilysu'r cynnwys.

Dirnad Economi Cymru Cyfyngedig, Uned Pentref Busnes Iâl, Ffordd Ellice, Wrecsam, Cymru, LL13 7YL, 11001584.

Mae Banc Datblygu Cymru ccc (Development Bank of Wales Plc) yn gwmni daliannol Grŵp sy'n masnachu fel Banc Datblygu Cymru. Mae'r Grŵp yn cynnwys nifer o is-gwmnïau sydd wedi'u cofrestru gydag enwau gan gynnwys y llythrennau blaen BANC DATBLYGU CYMRU. Mae Banc Datblygu Cymru ccc yn gwmni cyllid datblygu sy'n eiddo llwyr i Weinidogion Cymru ac nid yw wedi'i awdurdodi na'i reoleiddio gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (ARhD) na'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (AYA). Mae gan Fanc Datblygu Cymru (Development Bank of Wales Plc) dri is-gwmni sydd wedi'u hawdurdodi a'u rheoleiddio gan yr ARhA. Sylwer nad yw Banc Datblygu Cymru ccc (Development Bank of Wales Plc) nac unrhyw un o'i is-gwmnïau yn sefydliadau bancio nac yn gweithredu fel y cyfryw. Mae hyn yn golygu na all unrhyw un o'r endidau grŵp dderbyn blaendaliadau gan y cyhoedd. Gellir dod o hyd i siart strwythur cyfreithiol cyflawn ar gyfer Banc Datblygu Cymru bancdatblygu.cymru.

Cafodd chwarter olaf blwyddyn ariannol 2019/20 ei ddominyddu gan bandemig Cofid-19. Mae economi'r byd mewn amseroedd digynsail. Mae'r Gronfa Ariannol Rhyngwladol yn rhagweld crebachiad o 3% mewn CDG yn fyd-eang yn 2020, dirwasgiad dyfnach na'r hyn a gofnodwyd yn argyfwng ariannol 2008/09. Mae'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol yn rhagweld 130 miliwn o swyddi'n cael eu colli yn 2020 yn fyd-eang. Cyrhaeddodd hawliadau diweithdra'r UD 40 miliwn erbyn diwedd mis Mai 2020 (14.7%) a chrebachodd CDG yr UD 5% yn Ch1 2020.

Nododd ACh3 ym mis Mawrth fel meincnod o amodau economaidd cyn y pandemig. Er bod effeithiau'r pandemig yn ddifrifol, daethant ar adeg pan oedd economi'r DU eisoes yn arafu a chyda chynhyrchu a buddsoddi yn wynebu heriau sylweddol. **Crebachodd CDG y DU 0.2% ym mis Chwefror 2020, a hynny cyn i effaith Cofid-19 ddechrau cael ei theimlo yn y DU.**

Gostyngodd CDG y DU 2% yn y cyfnod Ch4 2019-Ch1 2020. Ym mis Mawrth yn unig amcangyfrifir bod CDG y DU wedi cofnodi dirywiad misol o 5.8%, ac ym mis Ebrill amcangyfrifir bod dirywiad CDG y DU yn 20.4%, gan fod hyn yn uwch nag erioed ers 1997 pan ddechreuodd cofnodion misol tebyg. **Mae Banc Lloegr yn rhagweld crebachiad o 14% yn economi'r DU yn 2020 a chynnydd mewn diweithdra o 4% yn 2019 i 8% yn 2020.** Mae rhagolygon y Gronfa Ariannol Rhyngwladol ar gyfer y DU yn dangos dirywiad o 6.5% yn 2020, gyda diweithdra yn codi i 4.8% yn 2020. **Mae'r amcangyfrifon CDG chwarterol ar gyfer Cymru yn gyfnewidiol, ond mae'r amcangyfrifon diweddaraf ar gyfer Ch3 2019 yn datgelu cynnydd o 0.9%, yn dilyn dirywiad o 0.1% yn ystod Ch2 2019. Cafodd y cynnydd hwn ei yrru gan wasanaethau ac adeiladu. Oherwydd yr oedi mewn amser wrth gyhoeddi'r amcangyfrifon, bydd rhai misoedd cyn i effeithiau Cofid-19 gael eu dangos yn y data CDG chwarterol ar gyfer Cymru.**

Roedd buddsoddiad busnes y DU yn wastad yn Ch1 2020. Roedd effeithiau'r achosion o

Cwmpodd mynegai hyder busnesau bach Cymru i lefel isaf erioed yn Ch1 2020

Gostyngodd hyder BBaCh Cymru o -27% yn Ch4 2019 i -125 yn Ch1 2020. Cofnododd Cymru y cwmp lleiaf mewn hyder rhwng Ch4 2019 a Ch1 2020 ar draws 12 rhanbarth y DU.

Cofid-19 yn dechrau cael eu teimlo tua diwedd Ch1 2020, gyda rhai cwmnïau'n atal cynlluniau buddsoddi, yn enwedig mewn sectorau fel teithio, manwerthu a lletygarwch. Mae Banc Lloegr yn disgwyl y bydd y DU yn gweld buddsoddiad busnes yn gostwng 26% yn 2020.

Yn ôl yr Arolwg Effaith Busnes COFID-19 SYG, ers mis Mawrth 2020, nododd 60% o BBaCh y DU ostyngiad mewn trosiant, gydag un o bob pedwar BBaCh yn nodi crebachiad o fwy na 50%. **Rhwng 20 Ebrill a 3 Mai, arddangosodd Cymru'r gyfran fwyaf o BBaCh a arolygwyd a welodd gwmp yn y trosiant (66% o'r BBaCh a samplwyd). Roedd tua 21% o BBaCh Cymru wedi cau dros dro neu wedi seibio masnachu dros dro, gyda'r mwyafrif o'r rhain ym maes hamdden, lletygarwch, cyfanwerthu ac adeiladu. Cymru oedd rhanbarth y DU gyda'r cynnydd canrannol blynyddol mwyaf mewn diddymiaid; cynyddodd y rhain o 982 ym mis Mawrth 2019 i 2,359 ym mis Mawrth 2020.**

Disgwylir i effeithiau'r pandemig fod yn fwy difrifol a disgwylir iddo barhau'n hirach mewn sectorau gwasanaethau dethol, gan gynnwys lletygarwch, hamdden a thwristiaeth, yn ogystal â chyfanwerthu, trafndiaeth ac adeiladu. Mae micro-gwmnïau sydd â lefelau is o adnoddau yn faes sy'n peri pryder arbennig. **Mae ardaloedd yng Nghymru fel y Canolbarth a'r De Orllewin, gydag arbenigedd uchel mewn cyfanwerthu a lletygarwch, a chyfran uchel o ficro-gwmnïau yn y stoc fusnes rhanbarthol, yn arbennig o agored i niwed.**

Mae'r galw am gyfleusterau credyd llif arian wedi cynyddu'n sydyn iawn. Gwnaeth un o bob tri chwmni a arolygwyd yn yr Arolwg Effaith Busnes COFID-19 SYG nodi naill ai nad oedd ganddynt arian wrth gefn neu nad oedd ganddynt lif arian ar ôl am ddim ond 3 mis. **Datgelodd adroddiad Mynegai Busnesau Bach y FfBB fod cyfradd y busnesau bach sy'n ceisio am gredyd wedi cynyddu 2.1% yn Ch1 2020, o'i gymharu â'r chwarter blaenorol. Adroddodd Monitor Cyllid BBaCh y BVA-BDRC fod y chwant am gyllid yn y dyfodol wedi cynyddu ar draws yr holl fandiau maint cyflogaeth BBaCh am y 3 mis hyd at fis Ebrill.**

Er bod amodau busnes yn wael, nododd Arolwg Prif Swyddogion Ariannol Deloitte, er gwaethaf y wasgfa fwyaf mewn amodau cyllido ers argyfwng ariannol 2008/09, roedd credyd ar ddiwedd mis Mawrth yn parhau i fod ar gael yn haws ac yn rhatach nag yn yr argyfwng blaenorol oherwydd y cwmp yng nghyfraddau llog Banc Lloegr. Mae system fancio gryfach a'r ymyriadau polisi i frwydro yn erbyn effeithiau Cofid-19 wedi dylanwadu ar y darlun hwn. Mae Cynllun Cadw Swyddi Coronafirws Llywodraeth y DU, Cynllun Benthyciad Ymyrraeth Busnes Coronafirws (CBYBC), Cynllun Benthyciad Bownsio Yn Ôl (CBBO), grantiau rhyddhad ardrethi busnes, a Chronfa Cydnerthedd Economaidd Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Cynllun Benthycia Busnes COFID-19 Cymru Banc Datblygu Cymru i gyd wedi helpu BBaCh Cymru.

Mae effeithiau argyfwng Cofid-19 hefyd yn dechrau dangos mewn statws risg credyd. Cynyddodd cyfran y BBaCh o Gymru sy'n dod o fewn y grŵp Risg Uchel o 2.5% ym mis Mawrth i 5.8% ym mis Mai 2020. Cyllid, lletygarwch, trafndiaeth a thelathrebu a welodd y gyfran fwyaf o BBaCh yn y categori Risg Uchel ym mis Mai 2020.

Roedd cyfanswm buddsoddiad cronus y Banc Datblygu hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol 2019/20 bron yn £690m, i fyny o £590m yn 2018/19. Roedd benthyciadau yn cyfrif am 58% o'r cyfanswm hwn, gyda buddsoddiadau

ecwiti yn cynrychioli tua 27%, a mesanîn y 15% sy'n weddill. **Gwnaed bron i 4,000 o fenthyciadau rhwng 2001/02 a 2019/20, gyda'r benthyciadau hyn yn gysylltiedig â gweithgaredd sydd wedi creu bron i 12,800 o swyddi, ac wedi diogelu dros 21,830 o swyddi. Mae mwy na 340 o fuddsoddiadau ecwiti wedi'u cynnal dros y cyfnod, gan greu dros 3,280 o swyddi a diogelu tua 2,330 o swyddi.**

Roedd blwyddyn ariannol 2019/20 yn un gref i Fanc Datblygu Cymru o ran nifer y BBaCh yn derbyn buddsoddiad a gwerth y buddsoddiadau ill dau. Cyrhaeddodd buddsoddiadau newydd a wnaed gan y Banc Datblygu yn 2019/20 y **lefel uchaf erioed o £103m**, gyda'r rhain yn gysylltiedig â mwy na **960 o swyddi wedi'u creu a 2,300 o swyddi wedi'u diogelu.**

Mae'r Adroddiad Blynyddol (AB) hwn yn darparu amcangyfrifon o rai o effeithiau economaidd ehangach buddsoddiadau'r Banc Datblygu yn ystod y flwyddyn. **Gellir cysylltu pob £1m o fuddsoddiad y Banc Datblygu yn y flwyddyn 2019/20 gydag amcangyfrif o £1.93m o GYG Cymru.** Amcangyfrifir bod y swyddi uniongyrchol a grëwyd neu a ddiogelwyd yn gysylltiedig â GYG uniongyrchol o dros £125m. Fodd bynnag, pan gynhwysir effeithiau lluosydd y gweithgaredd economaidd hwn, mae hyn yn cynyddu i bron i £200m o GYG a mwy na 4,950 o swyddi.

Er bod yr amcangyfrifon hyn yn nodi arwyddocâd ehangach buddsoddiadau'r Banc Datblygu i economi Cymru, dim ond rhannol ydyn nhw. Yn gyntaf, mae'r GYG ac amcangyfrifon swyddi yn deillio o'r swyddi uniongyrchol (tymor byr) yn unig sy'n deillio o'r buddsoddiadau a wnaed yn 2019/20. Yn ail, gall fod effeithiau cynhyrchiant ac effeithiau cymdeithasol ehangach eraill hefyd. Mae'n anoddach meintio'r rhain, ond byddant yn dod yn arbennig o bwysig yn y blynyddoedd i ddod wrth i fuddsoddiadau'r Banc Datblygu geisio cefnogi busnesau bach a chanolig y mae'r pandemig coronafirws wedi effeithio arnynt.

Dyma ail Adroddiad Blynyddol (AB) Dirnad Economi Cymru. Yn Ch1 2020 dechreuwyd teimlo effeithiau economaidd pandemig COFID-19 a pholisiau llwyrsgloi mewn mannau eraill yn economi Cymru a'r DU. Bydd economi'r DU (a byd-eang) yn troi'n ddirwasgiad difrifol yn 2020. Fodd bynnag, effeithiodd lledaeniad y pandemig ar economi yn y DU a oedd eisoes yn arafu, gyda chynhyrchu a buddsoddi yn wynebu problemau sylweddol wrth ragweld y byddai'r DU yn gadael yr UE a dechrau'r cyfnod trosglwyddo. Mewn llawer o'r hyn sy'n dilyn, dim ond ar effeithiau cychwynol y pandemig a'r polisïau lliniaru dilynol ar economi Cymru y darperir sylwebaeth. Bydd dadansoddiad pellach o effeithiau'r pandemig yn cael ei gynnwys mewn Adroddiadau Chwarterol (ACh) yn ystod 2020/21.

Mae adrannau 2-4 o'r adroddiad hwn yn darparu data a sylwebaeth ar gyd-destun macro-economaidd y DU a Chymru y mae BBaCh Cymru yn gweithredu ynddo, ynghyd â dadansoddiad o effeithiau cychwynol cefnogaeth llywodraeth Cofid-19 i gwmnïau a ffactorau sy'n ymwneud â'r galw am, y cyflenwad o, a chost cyllid BBaCh. Amcanion y rhannau hyn yw deall:

- Ffactorau macro-economaidd sy'n llunio'r galw am gyllid BBaCh yng Nghymru.
- Tueddiadau yn nhwf BBaCh, busnesau newydd a rhagolygon goroesi busnes yng Nghymru.
- Cyflenwi cyllid i BBaCh yng Nghymru.
- Y symiau a'r mathau o fenthyca / buddsoddi mewn BBaCh yng Nghymru, yn enwedig yng nghyd-destun Cofid-19.

Mae Adran 5 yn crynhoi gweithgareddau Banc Datblygu Cymru yng nghyd-destun ffactorau sy'n effeithio ar y galw am, a'r cyflenwad o, gyllid i BBaCh yng Nghymru. I grynhoi, mae'r AB yn nodi:

- Y defnydd o gronfeydd Banc Datblygu wrth ariannu BBaCh Cymru, a pha fath o fentrau a diwydiannau sydd yn cael eu cefnogi.
- Dosbarthiad daearyddol buddsoddiadau mewn BBaCh o amgylch Cymru.

Er bod Adroddiadau Chwarterol blaenorol (ACh) wedi archwilio gweithgaredd y Banc Datblygu o ran y buddsoddiadau a wnaed, mae'r Adroddiad Blynyddol yn mynd gam ymhellach ac yn ceisio rhoi mewnolwg i effaith economaidd ranbarthol ehangach y buddsoddiadau a wneir. Mae'r rhan olaf yn dod i gasgliadau o'r dadansoddiad cyffredinol.

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig i raddau helaeth ar ddata sydd ar gael i'r cyhoedd (a adroddir yn gyffredinol mewn blynyddoedd calendr) ynghyd â dadansoddiad arbennig o ddata a ddarperir gan Fanc Datblygu Cymru (a adroddir yn bennaf mewn blynyddoedd ariannol). Oherwydd gwahaniaethau mewn cyfnodau adrodd, bydd rhywfaint o gam-gymhariaeth amserol rhwng data yn yr adroddiad hwn. Nodwn hefyd mewn perthynas â'r Adroddiad Blynyddol hwn y gall rhywfaint o ddata economaidd sy'n ymwneud ag effeithiau ac ymyriadau Cofid 19 newid yn gyflym.

Dilynodd pandemig Cofid-19 yn gyflym ymadawiad y DU o'r UE a'r arafu economaidd yn ystod Ch4 2019. Mae'r effeithiau ar iechyd y cyhoedd ac amrywiol bolisiau lliniaru wedi effeithio ar gynhyrchu ar draws y rhan fwyaf o sectorau o'r economi, ynghyd â chwympiadau sydyn mewn gwariant ar ddefnydd a mwy o ansicrwydd ymysg defnyddwyr. Mae'r effeithiau

ar fusnesau bach a chanolig Cymru eisoes i'w gweld ym mis cyntaf y pandemig a'r argyfwng economaidd dilynol, gydag amodau wedi cael effeithiau amlwg ar faint o gyllid sydd ar gael yn y farchnad (benthyciadau, gwarantau ac ecwiti) a'r mathau o ymyriadau gan y Llywodraethau (CBBCC, CBYCB a'r cynllun cadw swyddi), yn ogystal â'r defnydd a wneir o'r cronfeydd.

Yn Ch1 2020 mae economi'r DU yn cofnodi'r crebachiad chwarterol mwyaf ers 2007/08.

Yn flynyddol, crebachodd CDG y DU 1.6% yn y flwyddyn hyd at Ch1 2020. Gostyngodd CDG y DU amcangyfrif o 2% rhwng Ch4 2019- Ch1 2020, sef y crebachiad mwyaf ers Ch4 2008.¹ Ym mis Mawrth yn unig amcangyfrifir bod CDG y DU wedi cofnodi dirywiad misol o 5.8%, ac ym mis Ebrill 20.4%, cwmp uwch nag erioed ers 1997 pan ddechreuodd cofnodion misol tebyg. Roedd Banc Lloegr yn rhagweld gostyngiad enfawr o 25% ar gyfer Ch2 2020.² Crebachodd gwariant aelwydydd o 1.7% a gostyngodd ffurfiant cyfalaf sefydlog gros 1% yn chwarter cyntaf eleni, o'i gymharu â Ch4 2019.

Crebachodd pob prif sector o weithgaredd economaidd yn Ch1 2020. Gostyngodd allbwn mewn adeiladu 2.6%, cynhyrchiad 2.1%, a gwasanaethau 1.9%. Gostyngodd cyfanwerth a manwerthu 0.4%. Ond gwaethyngodd yr amodau ymhellach ym mis Ebrill. Er enghraifft, dim ond 197 o geir a gynhyrchwyd yn y DU ym mis Ebrill 2020, gan blymio o 70,971 ym mis Ebrill 2019. Gostyngodd gwerthiannau ceir o 161,000 ym mis Ebrill 2019 i ddim ond 4,100 ym mis Ebrill 2020, y lefelau isaf er

1946.³ Crebachodd gweithgynhyrchu yn ei gyfarwydd o 1.3% yn Ch1 2020. O fewn y meysydd gweithgynhyrchu, peiriannau ac offer cludo y gwelwyd y dirywiad mwyaf, oherwydd y cwmp yn y galw a'r stop mewn cynhyrchu a achoswyd gan y pandemig. Cynyddodd allbwn yn Ch1 2020 mewn rhai sectorau fel cynhyrchion fferyllol (0.7%) a chemegau (o 0.2%).

Mae marchnadoedd llafur wedi gweld newid dramatig wrth i'r galw is am gynhyrchion a gwasanaethau wneud i fusnesau dorri ar weithgaredd, lleihau oriau gwaith a diswyddo neu roi gweithwyr ar seibiant. Cyn y cyfnod llwyrsgloi, cynyddodd diweithdra yn y DU o 3.8% yn Ch4 2019 i 3.9% yn Ch1 2020. Gwelodd Cymru gynnydd chwarterol o 0.3% yn ei chyfradd ddiweithdra, gan gyrraedd 3.2%⁴ yn Ch1 2020. Ym mis Mai 2020, cyrhaeddodd nifer y bobl yng Nghymru sy'n hawlio budd-daliadau diweithdra 121,900 neu 8% o'r gweithlu.⁵

Prin fod y ffigurau hyn yn cipio effaith gychwynnol y pandemig a'r polisiau lliniaru. Daw darlun mwy amserol o gyflwr pethau o archwiliad a wnaed o nifer y gweithwyr a gafodd

¹ <https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/gdpfirstquarterlyestimateuk/januarytomarch2020>

² <https://www.bankofengland.co.uk/-/media/boe/files/monetary-policy-report/2020/may/monetary-policy-report-may-2020>

³ <https://www.smmr.co.uk/vehicle-data/car-registrations/>

⁴ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/regionallabourmarket/may2020>

⁵ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/datasets/nationallabourmarketsummarybyregions01>

⁶ <https://www.gov.uk/government/collections/hmrc-coronavirus-covid-19-statistics>

eu rhoi ar y cynllun seibiant trwy gyfrwng y *Cynllun Cadw Swyddi Coronafirws*.⁶ Ar ddiwedd mis Ebrill, yr oedd 3.8m o weithwyr wedi cael eu rhoi ar y cynllun seibiant, gyda'r nifer hwn yn cynyddu i 9.1m erbyn canol mis Mehefin. Yng Nghymru, roedd 316,000 o weithwyr wedi cael eu rhoi ar y cynllun seibiant erbyn dechrau mis Mehefin, sef tua 26% o gyfanswm y gweithlu yn y rhanbarth. Roedd cyfanswm gwerth hawliadau'r cynllun seibiant yn y DU yn £21bn. Credir bod 74% o fusnesau Cymru wedi gwneud cais am y cynllun – y swm uchaf yn y DU yng nghanol mis Mai, o'i gymharu â 67% yn Lloegr, 72% yr Alban a 65% yng Ngogledd Iwerddon.⁷ Ar ben hynny, gostyngodd nifer y gweithwyr ar gyflogres y DU ar ôl sawl blwyddyn, o 29m ym mis Mawrth i 28.4m ym mis Mai 2020.⁸

Datgelodd dadansoddiad SYG ar effeithiau cymdeithasol Cofid-19 ar Brydain Fawr fod 29% o ymatebwyr wedi cael eu rhoi ar y cynllun seibiant ac 20% wedi gweld gostyngiad yn yr oriau a weithiwyd.⁹ Bellach, mae disgwyl i'r *Cynllun Cadw Swydd Coronafirws* barhau tan fis Awst, pan ofynnir i gyflogwyr dalu cyfraniadau cymdeithasol gwarchod gweithwyr a chyfraniadau pensiwn cyflogwyr, ac erbyn mis Hydref gofynnir iddynt dalu 20% o gyflogau gweithwyr sydd wedi cael eu rhoi ar y cynllun seibiant.

At ei gilydd, mae Banc Lloegr yn rhagweld crebachiad economaidd o 14% ar gyfer 2020, ac adlam yn 2021 o 15%.¹⁰ Mae'r Banc yn rhagweld y bydd diweithdra yn cynyddu o 4% yn 2019 i 8% yn 2020, cyn cwmpo i 7% yn 2021. Mae rhagolygon y Gronfa Ariannol Rhyngwladol ar gyfer y DU yn dangos crebachiad o 6.5% yn 2020 ac adferiad o 4% yn 2021, gyda'r gyfradd ddiweithdra yn codi i 4.8% yn 2020 ac yn gostwng i 4.4% yn 2021.¹¹ Yr hyn sy'n hanfodol i'w ddeall yw'r lefel uchel o ansicrwydd ynghylch rhagolygon gyda llawer o fodelau economaidd mewn sefyllfa wael i ymdrin â newidiadau mor fawr mewn gweithgaredd. Yr hyn sy'n amlwg yw bod rhywfaint o ddisgwyliad y creithir rhagolygon economaidd tymor hir yn fwy parhaol o ganlyniad i'r pandemig ond hefyd y gwariant cyhoeddus sy'n ofynnol i liniaru difrod.

Er bod yr amcangyfrifon CDG chwarterol (arbrofol) ar gyfer Cymru yn gyfnewidiol, mae'r ffigurau ar gyfer Ch3 2019 yn dangos cynnydd o 0.9%, yn dilyn dirywiad o 0.1% yn y chwarter i Ch2 2019 a chynnydd chwarterol o 0.6% yn Ch1 2019.¹² Roedd CDG yng Nghymru wedi tyfu 1.7% yn y cyfnod Ch3 2018-Ch3 2019. Cafodd y cynnydd mewn CDG Cymru ei yrru'n bennaf gan wybodaeth a chyfathrebu (14%), gweithgareddau gwasanaeth gweinyddol a chymorth (4.5%), addysg (3%), ac adeiladu (2.5%). Mewn cyferbyniad, gostyngodd gweithgynhyrchu 2.5%, gyda dirywiad tebyg yn cael ei gofnodi gan lety a gweithgareddau gwasanaeth bwyd.

⁷ <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-52650074>

⁸ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/bulletins/earningsandemploymentfrompayasyouearnrealtimeinformationuk/june2020>

⁹ <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandwellbeing/datasets/coronavirusandthesocialimpactsongreatbritaindata>

¹⁰ <https://www.bankofengland.co.uk/-/media/boe/files/monetary-policy-report/2020/may/monetary-policy-report-may-2020>

¹¹ <https://www.imf.org/en/Publications/WEO/Issues/2020/04/14/weo-april-2020>

¹² <https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/gdpukregionsandcountries/julytoseptember2019>

Buddsoddi busnes y DU yn fflat yn Ch1 2020.

Yn dilyn dirywiad chwarterol o 0.5% yn Ch4 2019, roedd buddsoddiad busnes y DU yn wastad yn Ch1 2020. Yn ôl crynodeb diweddaraf *Asiantau Banc Lloegr o amodau busnes*¹³ roedd bwriadau buddsoddi busnesau wedi gwella rhywfaint oherwydd y sefydlogrwydd gwleidyddol cymharol yn dilyn etholiadau cyffredinol 2019 y DU. Roedd effeithiau'r achosion o Cofid-19 yn dechrau cael eu teimlo tua diwedd chwarter cyntaf 2020, gyda rhai cwmnïau'n atal cynlluniau buddsoddi, yn enwedig mewn sectorau fel teithio, manwerthu a lletygarwch.

Mae bwriadau buddsoddi busnes wedi cael eu marweiddio gan ansicrwydd sy'n deillio o'r pandemig. Mae'r Prif Swyddogion Ariannol sy'n cymryd rhan yn Arolwg y Panel Gwneud Penderfyniadau¹⁴ wedi datgelu eu bod yn disgwyl i werthiannau fod 40% yn is ar gyfartaledd yn Ch2 2020 o'i gymharu â'r arferol. Mae Banc Lloegr yn rhagweld buddsoddiad busnes 40% yn is yn Ch2 2020 o'i gymharu â Ch4 2019. Daeth hyn ar ben y buddsoddiad busnes cyffredinol yn arafu i gynnydd blynyddol o ddim ond 1% yn 2019. Mae Banc Lloegr yn rhagweld, o dan ei 'senario eglurhaol', y bydd y DU yn gweld buddsoddiad busnes yn gostwng 26% yn 2020, ond yn cynyddu 19% yn 2021 a 12% yn 2022.

Banc Lloegr yn torri cyfraddau llog i lefelau record o isel ym mis Mawrth 2020.

Mae galw is yn rhoi pwysau ar i lawr ar chwyddiant. Gostyngodd chwyddiant o 1.5% ym mis Mawrth i 0.8% ym mis Ebrill, ac ymhellach i 0.5% ym mis Mai 2020, yr isaf ers mis Mai 2016. Mae Banc Lloegr yn rhagweld chwyddiant yn 2020 o oddeutu 0.6%, i lawr

o 1.8% yn 2019. Penderfynodd Banc Lloegr newid cyfraddau llog ar ôl 6 mis, gan eu torri o 0.75% ym mis Chwefror 2020 i 0.25% ar 11 Mawrth ac ymhellach i'r lefel isaf erioed o 0.1% wyth diwrnod yn ddiweddarach.

¹³ <https://www.bankofengland.co.uk/agents-summary/2020/2020-q1>

¹⁴ <https://decisionmakerpanel.co.uk/wp-content/uploads/2020/05/monthly-dmp-data-april-2020-1.xlsx>

Hyder cwmnïau bach yn cwmpo i'r lefel isaf erioed yn Ch1 2020.

Disgynnodd *Mynegai Busnesau Bach y DU*¹⁵ i'r lefel isaf erioed yn Ch1 2020 gan adlewyrchu effeithiau cychwynnol y pandemig a'r ansicrwydd enfawr a achoswyd. Plymiodd *Mynegai Busnesau Bach y DU* i -143.4 yn Ch1 2020.¹⁶ Eisoed yn Ch4 2019, roedd y mynegai wedi cyrraedd ei bwynt isaf (-21.1) ers y Wasgfa Gredyd. Balans net BBaCh y DU a nododd ddirywiad mewn allforion oedd 40%, unwaith eto pwynt isaf erioed. Roedd mwy nag 80% o gwmnïau bach yn rhagweld cwmp mewn refeniw yn Ch2 2020, bwriad un o bob deg cwmni bach oedd cau yng nghanol cythrwfl Cofid-19, a chyda thraean y

busnesau bach yn bwriadu lleihau nifer y staff.

Er bod hyder wedi plymio ar draws rhanbarthau'r DU, Cymru ochr yn ochr â Gogledd Ddwyrain Lloegr oedd y rhanbarthau â'r cwmnïau bach lleiaf pesimistaidd. Cofnododd Cymru'r cwmp lleiaf mewn hyder rhwng Ch4 2019 (-27) a Ch1 2020 (-125), er mai'r cwmp o 98 pwynt oedd y dirywiad chwarterol rhanbarthol mwyaf a gofnodwyd erioed. Flwyddyn yn ôl, Cymru oedd y rhanbarth all-orweddol yn nhermau mynegai hyder y DU, gyda'r gwerth mynegai yn cynyddu o 3 yn Ch4 2018 i 11 yn Ch1 2019, gyda gwerth y DU yn -5 yn Ch1 2019.

Mynegai hyder busnesau bach y DU yn plymio ym meysydd lletygarwch a hamdden yn chwarter cyntaf 2020

Cofnodwyd yr hyder isaf mewn sectorau nad ydynt yn hanfodol a oedd yn wynebu mesurau llwyrsgloi llym a chwyp sylweddol yn y galw, megis lletygarwch (-187), hamdden (-178) a manwerthu (-155).

¹⁵ "ynegai wedi'i bwysoli o'r Mynegai Busnesau Bach o'r ymatebion i'r cwestiwn: 'O ystyried perfformiad cyffredinol eich busnes, ac anwybyddu unrhyw amrywiadau tymhorol arferol yr adeg hon o'r flwyddyn, sut ydych chi'n gweld rhagolygon busnes dros y tri mis nesaf, o'i gymharu â'r y tri mis blaenorol? Rhoddir y pwysidiadau canlynol i gyfran y cwmnïau sy'n adrodd 'llawer gwell': +2, ychydig yn well +1, tua'r un 0, ychydig yn waeth -1 ac yn waeth o lawer -2; mae'r Mynegai Busnesau Bach yn deillio o swm y ffactorau hyn" (FSB, 2020).

¹⁶ FfBB (2020). Mynegai FfBB mynegai busnesau bach, Chwarter 12020. Ar gael ar: <https://www.fsb.org.uk/static/282782c0-0f30-4e7b-a24b4cd2757b3ebc/FSB-Q1-2020-Small-Business-Index.pdf>

Y darlun busnesau BBaCh yng Nghymru:

effaith gychwynnol Cofid-19 a'r amodau newidiol sy'n

llunio'r galw am gyllid


3

Micro-gwmnïau yw'r grŵp BBaCh mwyaf yng Nghymru. Mae'r cwmnïau lleiaf yn wynebu heriau oherwydd eu hadnoddau ariannol a phersonél cyfyngedig.¹⁷ Yng Nghymru, mae 95.6% o BBaCh yn ficro-gwmnïau sy'n cyflogi llai na 9 o bobl.¹⁸ Roedd cwmnïau bach yn 3.6% o gwmnïau Cymru yn 2019, tra bod cwmnïau canolig yn cyfrif am 0.8% (Ffigur 1). Cyfraniad micro-gwmnïau i gyflogaeth busnesau bach a chanolig yng Nghymru oedd 56% yn 2019, gyda chwmnïau bach yn cyfrif am 24% a maint canolig am 20%. Mae'r wybodaeth am drosiant busnesau bach a chanolig yn llai eglur a dylid ei thrin yn fwy gofalus. Fel

y nodwyd mewn ACh blaenorol, mae data ar gyfer trosiant microfusnesau yn aml yn destun diwygiadau yn y dyfodol. Mae data dros dro ar gyfer 2019, yn nodi bod trosiant microfusnesau wedi gostwng 20% yn ystod 2018-2019, gostyngodd trosiant cwmnïau bach 0.9%, tra bod mentrau maint canolig wedi cynyddu eu trosiant 3.4%. Dangosodd masnachwyr unigol ostyngiad o 52% yn eu trosiant yn y flwyddyn hyd at 2019, yn seiliedig ar ddata dros dro o safle Stats Cymru. Bydd data dangosol yn cael ei adolygu a'i gynnwys yn y ACh yn y dyfodol yn ystod 2020/21.

Ffigur 1.

BBaCh yng Nghymru yn ôl Band Maint (% , 2019)



Ffynhonnell: Stats Cymru, Strwythur busnes yng Nghymru yn ôl band maint a mesur (data dros dro)

¹⁷ Bartik et al. (2020) How are small businesses adjusting to covid-19? Early evidence from a survey. Ar gael ar: <https://www.nber.org/papers/w26989.pdf>

¹⁸ Cyhoeddir data Llywodraeth Cymru trwy blatfform StatsCymru. Mae'r ddogfen Ffynhonnell yma <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-12/size-analysis-active-businesses-2019-503.pdf>

Y darlun busnesau BBaCh yng Nghymru:

effaith gychwynnol Cofid-19 a'r amodau newidiol sy'n llunio'r galw am gyllid


De Ddwyrain Cymru oedd â'r crynodiad uchaf o BBaCh ym mhob band maint yn 2019.

Mae Ffigur 2 yn dangos bod dros 40% o gwmnïau micro, bach a chanolig Cymru yn Ne Ddwyrain Cymru. O ran y stoc fusnes ym mhob rhanbarth yng Nghymru mae micro-gwmnïau yn dominyddu. Er enghraifft,

cofnododd Canolbarth a De Orllewin Cymru gyfran o 95.6% o ficro-gwmnïau yn eu stoc busnes, ychydig yn uwch na Gogledd Cymru (95.4%) a De Ddwyrain Cymru (95.2%).

Ffigur 2.

Cyfrif BBaCh yng Nghymru, % yn ôl rhanbarth a band maint (2019)



Ffynhonnell: Ffynhonnell: Stats Cymru, Mentrau yn ôl band maint, ardal a blwyddyn (data dros dro)

Y darlun busnesau BBaCh yng Nghymru:


effaith gychwynnol Cofid-19 a'r amodau newidiol sy'n llunio'r galw am gyllid

Y sector masnach gyfanwerthu / manwerthu oedd â'r gyflogaeth BBaCh uchaf yn 2019.

Disgwylir i effeithiau Cofid-19 fod yn anwastad yn sectoraidd. Mae gan Gymru grynhoed uchel o gyflogaeth BBaCh mewn sectorau fel cyfanwerthu a manwerthu, trafndiaeth, gwestai a bwyd, yn ogystal â chyfathrebu (Ffigur 3). Disgwylir i'r pandemig effeithio ar y sectorau hyn waethaf, a'r sectorau sy'n cael eu hamlygu fwyaf trwy broses ôl-llwyrngloi estynedig. Mae Ffigur 3 yn datgelu bod tua 34% o gyflogaeth 2019 yng Nghymru ym maes cyfanwerthu, manwerthu ac ati (400,000 o weithwyr), ac yna gwasanaethau ariannol a busnes (227,000), iechyd ac addysg y

sector preifat (172,000), a chynhyrchu (167,000). At hynny, ym maes cyfanwerthu a manwerthu mae'r gyflogaeth ar gyfartaledd fesul menter yn llai nag 8 o bobl. Mae adroddiad *Where Next for the Economy*, y *Bevan Foundation*¹⁹ yn honni y gallai effaith Cofid-19 ar Gymru gael ei lleihau gan y cyfraniad sylweddol at CDG Cymru a wneir gan sectorau yr ystyrir eu bod yn cael eu heffeithio'n llai fel addysg, iechyd a gweinyddiaeth gyhoeddus (cyfraniad 24.5% i CMC yng Nghymru o'i gymharu â 17.3% yn y DU).

Ffigur 3.
Nifer y Gweithwyr yn ôl Sector (2019)



Ffynhonnell: Stats Cymru, Mentrau yn ôl diwydiant (SIC2007), band maint ac ardal (data dros dro)

¹⁹ <https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2020/05/Economy-Briefing-Final.pdf>

Y darlun busnesau BBaCh yng Nghymru:

effaith gychwynnol Cofid-19 a'r amodau newidiol sy'n llunio'r galw am gyllid

3


Arafu twf allbwn mewn gwasanaethau marchnad yn Ch4 2019.

Mae Ffigur 4 yn dangos y symudiad chwarterol ym mynegeion Cymru o allbwn mewn gwasanaethau cynhyrchu, adeiladu a marchnad rhwng Ch4 2012 a Ch4 2019. Parhaodd mynegai allbwn y sector adeiladu â'r twf a gyflawnwyd yn Ch3 2019 pan adferodd ar ôl chwarter o dwf negyddol. Yn Ch4 2019, cafodd ei osod ymhell uwchlaw (gan 26%) ei werth mynegai

blwyddyn sylfaen 2016. Dirywiodd mynegai gwasanaethau'r farchnad yng Nghymru am ail chwarter yn olynol yn dilyn pum chwarter yn olynol o dwf cadarnhaol. Mae'r mynegai cynhyrchu ar gyfer Cymru wedi arddangos twf am ail chwarter yn olynol yn Ch4 2019. Roedd y mynegai cynhyrchu 4.5% yn uwch na'i lefel mynegai blwyddyn sylfaen 2016 yn Ch4 2019.

Ffigur 4.

Mynegeion allbwn Cymru: tueddiadau Ch4 2012 - Ch4 2019 (2016 = 100)



Ffynhonnell: Stats Cymru, Mynegeion Cynhyrchu ac Adeiladu Cymru (2016 = 100) yn ôl adran a blwyddyn a Mynegai Gwasanaethau'r Farchnad (2016 = 100) yn ôl blwyddyn ac ardal

Disgwylir i bob un o'r mynegeion allbwn hyn ostwng yn sydyn yn 2020. Er enghraifft, mae arwyddion cynnar o'r *IHS Markit / CIPS*²⁰ yn dangos bod Mynegai Rheolwyr Prynu gweithgynhyrchu wedi gostwng o 51.7 ym mis Chwefror i 47.8 Mawrth 2020 oherwydd gostyngiad mewn allbwn ac archebion newydd.

²⁰ <https://www.markiteconomics.com/Public/Home/PressRelease/615ff58bd51c4d31b2ff0b4c851f2157>

Y darlun busnesau BBaCh yng Nghymru:

effaith gychwynnol Cofid-19 a'r amodau newidiol sy'n llunio'r galw am gyllid

3


Gwelodd Cymru'r newid % blynyddol mwyaf mewn diddymiadau busnes ym mis Mawrth 2020.

Yn ôl dadansoddiad gan y *Ganolfan Ymchwil Menter*²¹ diddymwyd tua 51,498 o gwmnïau cyfyngedig yn ystod Mawrth 2020 (Ffigur 5). O gymharu data rhwng Mawrth 2020 a Mawrth 2019, cynyddodd nifer y diddymiadau busnes 70% (21,206 yn fwy yn cau), gyda nifer y busnesau newydd yn gostwng 23% (14,270 yn llai). Er bod pob sector o weithgaredd economaidd wedi profi cynnydd yn nifer y diddymiadau, trafnidiaeth oedd y sector a gafodd ei daro fwyaf gan weld cynnydd o 194% yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2020.

Er mai Llundain a welodd y cynnydd mwyaf mewn diddymiadau gyda chynnydd o 67% (6,431) ym mis Mawrth 2020, Cymru oedd y rhanbarth gyda'r codiad canrannol blynyddol mwyaf (codiad o 140% neu 1,377 yn fwy o ddiddymiadau). Gwelodd Cymru hefyd y pedwerydd canran fwyaf o gwmp mewn corfforiadau ymhlith rhanbarthau'r DU h.y. dirywiad o 1,812 ym mis Mawrth 2019 i 1,293 ym mis Mawrth 2020 (-28%).

Ffigur 5.

Nifer diddymiadau'r flwyddyn hyd fis Mawrth 2020



Ffynhonnell: Canolfan Ymchwil Menter

Roedd pum ton o Arolwg Effaith Busnes COFID-19 SYG bob pythefnos ar gael ar adeg ysgrifennu'r Adroddiad Blynyddol hwn. Yn yr hyn sy'n dilyn rydym yn cyfeirio at wahanol donau'r Arolwg er mwyn canfod effeithiau busnes ar gamau pwysig yn ystod y broses Cofid 19 / llwyrngloi. Yn ôl yr Arolwg Effaith

Busnes COFID-19 SYG (y pum ton, bob pythefnos, rhwng 9 Mawrth a 17 Mai)²², roedd tua 78% o'r BBaCh a arolygwyd yng Nghymru wedi parhau i fasnachu yn ystod rhan gyntaf y pandemig (cyfradd debyg i gyfartaledd y DU), gyda llawer o'r gweddill yn cau dros dro neu'n oedi masnachu dros dro (21% neu fwy

²¹ <https://www.enterpriseresearch.ac.uk/uk-companies-facing-covid-19-pincer-movement-data-shows/>

²² <https://www.ons.gov.uk/economy/economicoutputandproductivity/output/datasets/businessimpactofcovid19surveybicsresults>

Y darlun busnesau BBaCh yng Nghymru:

effaith gychwynnol Cofid-19 a'r amodau newidiol sy'n

llunio'r galw am gyllid

3

nag 20,000 o gwmnïau). Roedd llai nag 1% wedi rhoi'r gorau i fasnachu'n barhaol. Roedd y rhan fwyaf o'r cwmnïau a gaewyd dros dro ym maes hamdden, lletygarwch, cyfanwerthu ac adeiladu a gyda hyn i raddau helaeth yn ganlyniad disgwylidig y cyfnod llwyrsgloi. Mae adroddiad Where Next for the Economy,

y Bevan Foundation yn amcangyfrif bod y cyfraddau isaf o fusnesau yn cau dros dro yn Ne Ddwyrain Cymru, gydag amcangyfrif bod 21.4% o fusnesau Casnewydd (yr isaf) wedi cau dros dro rhwng 6ed a 19eg Ebrill, 22% yng Nghaerdydd a 31.7% yng Ngwynedd (yr uchaf).

Effaith gychwynnol pandemig Cofid-19.

Yn ôl Arolwg Effaith Busnes COFID-19 SYG mae trosiant y busnesau bach a chanolig a gyfwelwyd wedi cael eu heffeithio'n wael (Ffigur 6). Ers 20fed Ebrill, nododd 60% o BBaCh y DU ostyngiad mewn trosiant, gydag un o bob pedwar BBaCh yn nodi crebachiad o fwy na 50%, gyda'r gyfradd hon yn gostwng i 25% o BBaCh yn y cyfnod rhwng 4ydd a 17eg Mai. Y diwydiannau yr effeithiwyd arnynt fwyaf yn y cyfnod rhwng 6 a 19 Ebrill oedd adeiladu (nododd 81% o'r BBaCh a arolygwyd gwmp mewn trosiant), hamdden (80%), cludiant


(74%), lletygarwch (68%) a chyfanwerthu (64%). Yn y cyfnodau rhwng 20 Ebrill a 3 Mai a 4ydd i 17 Mai, nid oedd y llun wedi newid ryw lawer.

Uchelgeisiau twf BBaCh yn disgyn

Yn ôl Monitor Cyllid BBaCh y BVA-BDRC, gostyngodd cyfran y BBaCh sydd â chynlluniau i dyfu o 52% ym mis Ionawr i 34% ym mis Ebrill 2020.

Ffigur 6.

Newid yn nhrosiant menter y DU yn ystod y pythefnos blaenorol



Ffynhonnell: Arolwg Effaith Busnes COFID-19 SYG

Y darlun busnesau BBaCh yng Nghymru:

effaith gychwynnol Cofid-19 a'r amodau newidiol sy'n llunio'r galw am gyllid

3

Pryderon BBaCh am yr hinsawdd economaidd yn cynnyddu.

Yn ôl *Monitor Cyllid BBaCh y BVA BDRC*,²³ cynyddodd cyfran y BBaCh a oedd yn poeni am yr hinsawdd economaidd gyfredol o 18% ym mis Ionawr i'r uchafbwynt mwyaf erioed o 35% ym mis Ebrill 2020. Cynyddodd ansicrwydd gwleidyddol a phryderon llif arian / taliad hwyr hefyd (o 21% i 24% ac o 13% i

16% o ymatebwyr yn eu tro). Cododd pryderon am yr hinsawdd economaidd bresennol fwy ar gyfer yr hunangyflogedig (o 18% i 35% o ymatebwyr hunangyflogedig), cwmnïau micro (o 19% i 37%) a chwmnïau bach (o 14% i 31%) yn hytrach na busnesau canolig (o 20% i 26%).


Adroddir mai BBaCh yng Nghymru yw'r rhai mwyaf agored i niwed ledled gweinyddiaethau datganoledig y DU.

Dangosodd Arolwg Effaith Busnes COFID-19 SYG am y cyfnod rhwng 20 Ebrill a 3 Mai bod 66% o BBaCh Cymru wedi gweld cwmpw mewn trosiant, ac yna Gogledd Iwerddon

(62%). Mewn tri chyfnod arolwg (pythefnos 6-19 Ebrill, 20 Ebrill-3 Mai, 4-17 Mai), cofnododd Cymru'r gyfran isaf o ymatebwyr BBaCh a nododd berfformiad ariannol heb ei effeithio.

Ffigur 7.

Newid yn nhrosiant menter yn ystod y pythefnos blaenorol ar draws gwledydd y DU a gweinyddiaethau datganoledig, arolygwyd BBaCh rhwng 20 Ebrill a 3 Mai



Ffynhonnell: Arolwg Effaith Busnes COFID-19 SYG

²³ <http://www.bva-bdrc.com/wp-content/uploads/2020/05/SME-Monthly-charts-April-FINAL.pdf>

Y darlun busnesau BBaCh yng Nghymru:

effaith gychwynnol Cofid-19 a'r amodau newidiol sy'n

llunio'r galw am gyllid

3

Effeithiwyd yn ddifrifol ar dwristiaeth a lletygarwch yng Nghymru.

Mynegodd Baromedr *Twristiaeth Llywodraeth Cymru*²⁴ bod y sector wedi wynebu archebion yn cael eu canslo, gyda cholled o 20% ar gyfartaledd o'r refeniw arferol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfan ar gyfer cwmnïau a arolygwyd rhwng 22 Ebrill ac 1 Mai 2020. Yng Nghymru, roedd 53% o'r ymatebwyr wedi colli hyd at 20% o'u refeniw arferol. Roedd tua 70% o'r cwmnïau a gafodd eu cyfweld rhwng 22 Ebrill a 1 Mai 2020 wedi rhoi o leiaf un gweithiwr ar absenoldeb â thâl neu ar seibiant (cynnydd sylweddol o'r 50% o'r cwmnïau a arolygwyd rhwng 26 a 31 Mawrth 2020). Rhwng 22 Ebrill a 1 Mai 2020, roedd 80% o'r busnesau a gafodd eu cyfweld yng Ngogledd Cymru wedi rhoi staff ar seibiant, 72% yn Ne Ddwyrain Cymru, a 64% (ar gyfartaledd) yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru.

Ar gyfartaledd, cafodd 8 o weithwyr fesul cwmni twristiaeth a lletygarwch a arolygwyd eu rhoi ar wyliau â thâl neu eu rhoi ar seibiant, tra mai dim ond 0.1 gweithiwr i bob cwmni a arolygwyd a gafodd eu diswyddo, gan awgrymu bod Cynllun Cadw Swydd Coronafirws wedi cadw nifer y rhai a anfonwyd adref o'u gwaith ar lefel isel mewn lletygarwch a thwristiaeth yng Nghymru hyd yn hyn. Mae tapro'r cynllun hwn yn peri problem i 70% o fusnesau sy'n defnyddio absenoldeb â thâl neu seibiant, gyda chwmnïau yn y sector yn wynebu penderfyniadau beirniadol yn y cyfnod Gorffennaf-Awst ar ba mor bell i ail agor cyfleusterau yn llawn tra bo'r economi'n addasu.

²⁴ <https://gov.wales/tourism-barometer-coronavirus-covid-19-impact-survey>

Y darlun busnesau BBaCh yng Nghymru:

effaith gychwynnol Cofid-19 a'r amodau newidiol sy'n llunio'r galw am gyllid

3


Ymatebodd BBaCh gyda strategaethau amddiffynnol ac ymosodol.

Mae llawer o gyflogwyr busnesau bach wedi ceisio ymdopi â'r crebachiad economaidd trwy aildrefnu ad-daliadau gorddrafft a benthyciadau, chwilio am gefnogaeth gan y llywodraeth, a thorri costau. Yn ôl Arolwg Effaith Busnes COFID-19 SYG, roedd y mwyafrif o ymatebwyr wedi troi at ddiswyddo tymor byr a lleihau oriau gwaith (Ffigur 8). Mae

rhai eraill wedi gweithredu strategaethau mwy rhagweithiol. Yn ôl Arolwg yr FfBB *New Horizons*²⁵ roedd 40% o'r ymatebwyr wedi penderfynu cynyddu'r defnydd o dechnolegau digidol a'u presenoldeb ar-lein, gyda 35% yn ceisio newid eu harferion busnes er mwyn galluogi gweithio gartref.

Ffigur 8.

Mesurau a gymerwyd gan BBaCh i ymdopi ag effaith COFID-19 ar eu gweithlu



Ffynhonnell: Arolwg Effaith Busnes COFID-19 SYG

Yn amlwg mae effeithiau'r pandemig yn fwy difrifol mewn sectorau o'r economi a wynebodd y mesurau llwyrsgloi llymaf ac sy'n gysylltiedig â chynhyrchu nad yw'n hanfodol. Mae'r adolygiad uchod yn awgrymu bod ymyrraeth fwyaf difrifol

ar weithrediad cwmnïau ym maes lletygarwch, twristiaeth a thrafnidiaeth, tra bo' prosesu bwyd a fferyllol, ynghyd â gwasanaethau di-farchnad yn cael eu heffeithio lai.

²⁵ <https://www.fsb.org.uk/resource-report/new-horizons.html>

Cynnydd yn y galw am lif arian a chredyd.


Mae amodau benthyciad a chyllid ar gyfer BBaCh Cymru wedi bod yn esblygu'n gyflym o ganlyniad i ymateb Cofid-19.

Mae'r galw am gyfleusterau credyd llif arian wedi cynyddu'n sydyn yn ôl crynodeb o amodau busnes²⁶ Asiantau Banc Lloegr. Mae Ffigur 9 yn dangos bod un o bob pedwar

cwmni (26.4%) a arolygwyd yn yr Arolwg Effaith Busnes COFID-19 SYG yn y DU naill ai nid oedd ganddynt unrhyw gronfeydd wrth gefn na llif arian ar ôl am hyd at 3 mis. Mae'n annhebygol bod y wybodaeth yn Ffigur 9 yn adlewyrchu effeithiau ymyriadau'r llywodraeth yn llawn i gefnogi busnes trwy'r argyfwng.

Ffigur 9.

Pa mor hir ydych chi'n meddwl y bydd cronfeydd arian wrth gefn eich menter yn parhau? BBaCh a arolygwyd rhwng 4 ac 17 Mai



■ Llai nag 1 mis
 ■ 1 i 3 mis
 ■ 4 i 6 mis
 ■ Mwy na 6 mis
 ■ Dim cronfeydd arian parod wrth gefn
 ■ Ddim yn siwr

Ffynhonnell: Arolwg Effaith Busnes COFID-19 SYG

²⁶ https://www.bankofengland.co.uk/agents-summary/2020/2020-q1?utm_source=Bank+of+England+updates&utm_campaign=0bf45745c6-EMAIL_CAMPAIGN_2020_03_26_09_31&utm_medium=email&utm_term=0_556dbefcdc-0bf45745c6-113443741

Datgelodd Adroddiad Mynegai Busnesau Bach FfBB fod cyfradd y busnesau bach sy'n ceisio am gredyd wedi cynyddu yn Ch1 2020 2.1%, gyda chyfran y ceisiadau llwyddiannus yn 67%, yn codi 3.6% o'i gymharu â Ch4 2019. Nodir bod y cyfnod hwn yn rhagflaenu, i raddau helaeth, argyfwng Cofid-19. At hynny, gostyngodd cyfradd yr ymgeiswyr llwyddiannus y cynigiwyd cyfradd llog o dan 4% 10% iddynt yn Ch1 2020 o gymharu â Ch4 2019. Mae *Arolwg Prif Swyddogion Ariannol Deloitte*²⁷ yn adrodd bod cythrwfl Cofid-19 wedi arwain at gynydd sydyn yn y galw am gredyd a ffocws o'r newydd ar drosoledd corfforaethol.

Yn olaf, adroddodd *Monitor Cyllid BBaCh BVA BDRC*²⁸ bod awydd am gyllid yn y dyfodol wedi cynyddu ar draws yr holl fandiau maint cwmnïau bach a chanolig yn y 3 mis hyd at Ebrill 2020. Cynyddodd cyfran y BBaCh a gyfwelwyd a oedd wedi nodi cynlluniau i wneud cais am gyllid allanol o 8% ym mis Ionawr i 15% ym mis Ebrill 2020. Gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn cwmnïau canolig eu maint (o 7% i 17%) ac yn yr hunangyflogedig (o 6% i 14%). Dangosodd busnesau micro a busnesau bach godiadau llai (o 14% i 20% ac o 12% i 18%, yn y drefn honno).

...Ond rhywfaint o amharoddrwydd i wneud cais am gredyd, er gwaethaf y cwmpwmp mewn cyfraddau llog.

Serch hynny dangosodd rhai cwmnïau amharoddrwydd i wneud cais am fenthyciadau oherwydd ofnau na allant ad-dalu o ganlyniad i'r pandemig.²⁹ Fodd bynnag, mae credyd yn parhau i fod ar gael yn haws ac yn rhatach nag yr oedd pan roedd argyfwng ariannol 2008/09 ar ei anterth. Mae cryfder y system fancio a'r ymyriadau polisi i frwydro yn erbyn effeithiau Cofid-19 wedi dylanwadu ar hyn. Mae Ffigur

10 yn datgelu, er bod mynediad at ffynonellau ariannol wedi aros yn ddigyfnawid ar gyfer mwyaf helaeth y BBaCh a ymatebodd i'r Arolwg Effaith Busnes COFID-19 SYG, mae cyfran y BBaCh a arolygwyd yn nodi bod mynediad at gyllid wedi gostwng o 8.8% yn 9-22 Mawrth i 4.7% yn 20 Ebrill-3 Mai, ac mae hyn yn debygol o fod yn adlewyrchiad o ymyrraeth y llywodraeth ym mis Ebrill.


²⁷ <https://www2.deloitte.com/uk/en/pages/finance/articles/deloitte-cfo-survey.html>

²⁸ <http://www.bva-bdrc.com/wp-content/uploads/2020/05/SME-Monthly-charts-April-FINAL.pdf>

²⁹ <https://gov.wales/tourism-barometer-coronavirus-covid-19-impact-survey>

Ffigur 10.

Newid yng ngallu'r fenter i gael mynediad at ffynonellau ariannol



Ffynhonnell: Arolwg Effaith Busnes COFID-19 SYG

Mae'r defnydd o gyllid allanol gan BBaCh a gafodd eu cyfweld ym *Monitor Cyllid y BVA BDRC BBaCh*³⁰ wedi gostwng o 38% ym mis Ionawr i 30% ym mis Ebrill 2020. Cafodd hyn ei yrru'n bennaf gan y cwmp ym y defnydd o gyllid

allanol gan gwmnïau hunangyflogedig a maint canolog. Yng nghanol yr amodau busnes sy'n tynhau, cynyddodd cyfran y BBaCh a oedd wedi chwistrellu cronfeydd personol (cyllid mewnol) o 19% ym mis Ionawr i 27% ym mis Ebrill 2020.

Syrthiodd cyfraddau llog ar fenthyciadau i fusnesau bach a chanolig y DU i'w hisaf ers mis Hydref 2017.


Gyda refeniw yn gostwng oherwydd yr amodau masnachu gwael, mae'r risg o fethu talu yn cynyddu, ac fe allai hynny arwain at gynnydd yn y gost o fenthycia gan fanciau. Gostyngodd Banc Lloegr y gyfradd llog i 0.1% ym mis Mawrth 2020, gan geisio gostwng cost benthycia i fusnesau. O ganlyniad,

gostyngodd y cyfraddau llog cyfartalog ar fenthyciadau i BBaCh y DU o 3.36% ar ddiwedd mis Chwefror i 3.01% ar ddiwedd mis Mawrth 2020. Dyma'r lefel llog isaf ers mis Hydref 2017 (2.91%). Cynyddodd y newid blynyddol yn y ddarpariaeth benthyciadau o 0.7% ym mis Ionawr i 1.1% ym mis Mawrth 2020.

³⁰ <http://www.bva-bdrc.com/wp-content/uploads/2020/05/SME-Monthly-charts-April-FINAL.pdf>

Ffigur 11.

Cyfradd llog ar fenthyciadau i BBaCh y DU, a chyfraddau twf benthyciadau



Ffynhonnell: Banc Lloegr

Ymyriadau polisi critigol gan lywodraethau'r DU a Chymru i gefnogi busnesau.

Yn ogystal â'r Cynllun Cadw Swyddi Coronafirws a oedd yn cefnogi busnesau a gweithwyr, lansiodd sawl menter ariannol i frwydro yn erbyn effeithiau'r pandemig.

Er enghraifft, mae Cynllun Benthyciad Ymyrryd ar draws Busnes Coronafirws (CBYBC) ar gael i fusnesau bach a chanolig ar gyfer benthyciadau o hyd at £5m. Mae'n cael ei weinyddu gan Fanc Busnes Prydain, ac mae'n canolbwyntio ar gefnogi cwmnïau llai, gyda chyllid yn cael ei ddarparu gan fwy na 40 o fenthycwyr preifat, gan gynnwys banciau preifat a grwpiau buddsoddi, a fydd yn elwa o warant gan y llywodraeth. Hyd at 14 Mehefin,

cymradwywyd 49,250 o gyfleusterau gyda chyfanswm gwerth o £10.11bn.³¹

Lansiodd y Cynllun Benthyciad Bownsio yn Ôl (CBBO) ar ôl pryderon na fyddai mwyafrif helaeth BBaCh yn gallu cael gafael ar CBYBC oherwydd lefel isel y warant a ddarperir gan y wladwriaeth, yr angen i gwmnïau ddarparu rhagolygon, cyflymder prosesu ceisiadau, a meini prawf goddrychol sy'n ymwneud â hyfywedd busnes.³² O dan y CBBO, gall BBaCh fenthycia o £2,000 hyd at 25% o'u trosiant, gyda mwyafswm y benthyciad sydd ar gael yn £50,000. Mae llywodraeth y DU yn darparu gwarant 100% i fenthycwyr ac yn cwmpasu'r

12 mis cyntaf o daliadau llog. Ar hynny, mae'r gyfradd llog wedi'i gosod ar 2.5% y flwyddyn. Mae'r galw am CBBO wedi bod yn uchel iawn ac i rai datgelodd hyn bwysigrwydd cynllun gwarant y wladwriaeth 100% gyda cheisiadau yn cael eu prosesu yn gyflymach.³³ Er enghraifft ar ddiwrnod agoriadol CBBO, cyhoeddodd Banc Lloyds ei fod yn benthycu mwy na £1bn i 32,000 o BBaCh.³⁴ Hyd at 14 Mehefin, cymeradwywyd 863,500 o gyfleusterau ar gyfer y CBBO (bron i ugain gwaith y cyfleusterau sy'n gysylltiedig â CBBC) gyda chyfanswm gwerth o £26.3bn. Mae gwarant Llywodraeth y DU yn erbyn benthyciadau a estynnwyd i lawer o gwmnïau trwy gynlluniau Banc Busnes Prydain CBBO a CBBC wedi newid yn sylfaenol awydd risg benthycwyr prif ffrwd sy'n agor y ffordd i fusnesau gael gafael ar gyllid.

Mae Cronfa'r Dyfodol / Future Fund, a ddarperir gan Fanc Busnes Prydain, yn darparu benthyciadau y gellir eu trosi gan y Llywodraeth yn amrywio o £125,000 i £5m i gwmnïau arloesol yr effeithiwyd arnynt gan Cofid-19. Mae'r benthyciadau yn ddarostyngedig i arian cyfatebol cyfartal gan fuddsoddwyr preifat. Yn olaf, cyhoeddodd Llywodraeth y DU fod yr holl daliadau TAW yn cael eu gohirio am dri mis o 20 Mawrth, a gyda Banc Lloegr yn cyhoeddi ar 18 Mehefin y byddai £100bn arall yn cael ei bwmpio i mewn i economi'r DU.

Mae'r holl ymyriadau hyn wedi awgrymu newidiadau sylweddol yng nghyllid cyhoeddus y DU. Cynyddodd benthycu ym mis Ebrill 2020 464% yn flynyddol, o £11bn ym mis Ebrill 2019 i £62bn.³⁵ Roedd hyn yn awgrymu'r cynnydd blynyddol mwyaf mewn dyled gyhoeddus fel cyfran o CDG ers i'r

cofnodion ddechrau ym mis Mawrth 1993. Cynyddodd dyled gyhoeddus £118.4m (17.4%) o £1,769bn ym mis Ebrill 2019 i £1,887bn ym mis Ebrill 2020 (neu bron i 98% o'r CDG).

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymyrryd i helpu busnesau. Agorodd *Cronfa Cydnerthedd Economaidd Llywodraeth Cymru* ar gyfer cheisiadau ar 17eg Ebrill, gan geisio darparu cymorth ariannol yn ystod pandemig Cofid-19 a bydd yn helpu sefydliadau i reoli pwysau llif arian. Cafodd ei oedi ar 27 Ebrill yn dilyn lefel uchel iawn o geisiadau.

Fel rhan o Gronfa Cydnerthedd Economaidd Llywodraeth Cymru, lansiodd Banc Datblygu Cymru *Gynllun £100m Benthyciad Busnes Cymru COFID-19* ar 30 Mawrth i gefnogi busnesau oedd yn profi anawsterau llif arian. Ar ben hynny, cynigiodd Banc Datblygu Cymru wyliau ad-dalu cyfalaf a monitro ffioedd o 3 mis ar gyfer benthycwyr presennol, i'w helpu i ymdopi ag effaith Cofid-19.

Cyfanswm gwerth y gefnogaeth ariannol yng Nghymru a gynigir yw £1.35bn ar 15 Mehefin 2020.³⁶ O hyn, roedd £696m yn gysylltiedig â'r cynllun grantiau ardrethi busnes, a lanswyd gan Lywodraeth y DU ac roedd £235m yn gysylltiedig â'r *Gronfa Cydnerthedd Economaidd*, tra derbyniodd Banc Datblygu Cymru 1,608 o geisiadau ar gyfer *Cynllun Benthyciad Busnes Cymru Cofid-19* sydd newydd ei sefydlu. Tanysgrifiwyd yr un hwn yn llawn wythnos ar ôl ei lansio.

³¹ <https://www.gov.uk/government/collections/hm-treasury-coronavirus-covid-19-business-loan-scheme-statistics>

³² <https://www.fsb.org.uk/resources-page/government-urged-to-up-80-guarantee-on-smallest-emergency-business-loans-as-average-value-tops-170-000.html>

³³ <https://www.iod.com/news-campaigns/news/articles/New-figures-show-need-for-coronavirus-loan-scheme-changes>

³⁴ <https://www.reuters.com/article/us-health-coronavirus-britain-lloyds-idUSKBN22H1XI>

³⁵ <https://cy.ons.gov.uk/economy/governmentpublicsectorandtaxes/publicsectorfinance/bulletins/publicsectorfinances/april2020?uri=economy/governmentpublicsectorandtaxes/publicsectorfinance/bulletins/publicsectorfinances/april2020>

³⁶ https://llyw.cymru/data-cryno-am-coronafeirws-covid-19-ar-y-mateb-iddo-8-mehefin-2020?_ga=


Cymru oedd â'r gyfradd uchaf o ymgeiswyr i Gynlluniau Llywodraeth y DU.

Nododd Arolwg Effaith Busnes COFID-19 SYG fod mwyafrif yr ymatebwyr wedi gwneud cais i'r Cynllun Cadw Swyddi Coronafirws. Rhwng 6ed a 19eg Ebrill, cofnododd Cymru'r gyfradd uchaf o gwmnïau a arolygwyd a oedd wedi gwneud cais am y cynllun (73.8%, cyfartaledd y DU oedd 67%), gyda'r gyfradd hon yn cynyddu i bron i 80% yn ystod y pythefnos a ganlyn (eto Cymru oedd â'r gyfradd uchaf yn y DU, gyda'r cyfartaledd cenedlaethol yn cynyddu i 76%). Rhwng 4 a 17 Mai, dangosodd Cymru'r gyfradd ail uchaf o gwmnïau wedi gwneud cais am y Cynllun Cadw Swydd Coronafirws gyda 80.1% (Yr Alban 81.8%, Lloegr 79.8% a Gogledd Iwerddon 74.5%).

Gyda rhyddhad ardrethi busnes, gwelodd Cymru hefyd y gyfradd uchaf o ymgeiswyr (39% ym 6-19 Ebrill, a 41% yn 20 Ebrill-3 Mai, gyda chyfartaledd y DU yn 27% a 29% yn y drefn honno). Cymru hefyd oedd â'r gyfradd uchaf o ymgeiswyr am ohirio taliadau TAW, gyda 65% rhwng 6 a 19 Ebrill (cyfartaledd y DU oedd 56%), a 69% rhwng 20 Ebrill a 3 Mai (cyfartaledd y DU oedd 59%). I'r gwrthwyneb, cyflwynodd Cymru'r gyfradd isaf o gwmnïau a arolygwyd nad oeddent yn berthnasol ar gyfer unrhyw un o fentrau'r llywodraeth (13% yn 6-19 Ebrill, 9% yn 20 Ebrill-3 Mai, 15% ym 4-17 Mai).

Ffigur 12.

Ceisiadau gan gwmnïau a arolygwyd a wnaeth gais am becynnau cymorth y llywodraeth i ymdopi â COFID-19, cwmnïau a arolygwyd 20 Ebrill i 3 Mai



Ffynhonnell: Arolwg Effaith Busnes COFID-19 SYG

Adroddodd Baromedr Twristiaeth Llywodraeth Cymru fod 48% o gwmnïau'r diwydiant twristiaeth a gafodd eu cyfweld rhwng 20 Ebrill a 3 Mai 2020 wedi gwneud cais i Gronfa Cydnerthedd Economaidd

Llywodraeth Cymru, gydag 11% o geisiadau yn aflwyddiannus. Roedd tua 60% o'r ymatebwyr wedi gwneud cais am y grant ardrethi busnes o hyd at £10,000.

Mae buddsoddiad ecwiti yn y fantol...

Ar wahân i dynhau amodau credyd a phecynnau cymorth dilynol y llywodraeth, mae'r pandemig hefyd yn effeithio ar gyfalaf buddsoddi. Yn ôl Beauhurst, ac yn ymwneud â'r 29,000 o gwmnïau ar ei gronfa ddata,³⁷ mae tua £18.9bn o fuddsoddiad ecwiti mewn perygl, tra bod 22% o swyddi mewn cwmnïau twf uchel mewn perygl oherwydd bod 65% o gwmnïau sydd wedi cynyddu eu graddfa o dan fygythiad o ddirywiad neu gau. Mae Beauhurst yn cadarnhau'r effaith sylweddol ar hamdden a manwerthu. Ymddengys bod

cwmnïau 'Tech' sy'n hwyluso gweithio o bell, yn llai agored i niwed, gyda'r rhain yn cael eu hystyried yn yr ardal sy'n 'elwa' yn Llundain Fawr yn benodol. Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon oedd â'r gyfradd uchaf o gwmnïau yr effeithiwyd arnynt yn ddifrifol ac yn gritigol yn eu stoc busnes rhanbarthol, gyda'r lefel isel o dechnoleg a buddsoddiad ecwiti o bosibl yn effeithio ar y canfyddiad hwn, gan fod cwmnïau sydd wedi derbyn buddsoddiad ecwiti yn gyffredinol yn llai tebygol o gael eu heffeithio'n negyddol gan Cofid-19.

...ar ôl cyfnod o dwf sylweddol mewn marchnadoedd cyllid ecwiti busnesau bach.

Daw'r cynnwrf mewn marchnadoedd cyfalaf buddsoddi ar ôl twf sylweddol mewn marchnadoedd ecwiti busnesau bach. Yn ôl *Marchnadoedd Cyllid Busnesau Bach 2019/20*,³⁸

rhwng 2014 a 2018, cododd gwerth cyllid ecwiti cwmnïau llai 131% i £6.7bn, er gwaethaf y galw isel parhaus am gynhyrchion cyllid ecwiti.

³⁷ <https://about.beauhurst.com/research/covid19/>

³⁸ <https://www.british-business-bank.co.uk/research/sbfm/>


Cynnydd yn risg credyd Uchel BBaCh Cymru.

Mae effeithiau arafu economaidd cynnar 2020 ac yna o bosibl argyfwng Cofid-19 yn dechrau cael eu harddangos mewn statws risg credyd. Mae Ffigur 13 yn dangos newidiadau yn statws credyd BBaCh Cymru o ddechrau'r flwyddyn hon i fis Mai 2020, ac mae'n datgelu cynnydd mewn cwmnïau yn y grŵp Risg Uchel. Gostyngodd cyfran y BBaCh yn y categori Risg Uchel yn sylweddol o 5.8% ym mis Ionawr i 2.5% ym mis Mawrth 2020 (yr isaf a gofnodwyd

erioed yn adroddiadau DEC). Fodd bynnag, cofnododd gynnydd sydyn rhwng mis Mawrth a mis Mai, gan gyrraedd lefel Ionawr 2020 (5.8%). Dirywiodd y categori Gofalus yn yr un cyfnod, gyda chyfran y BBaCh sy'n disgyn o fewn y grŵp hwn yn gostwng o 71% ym mis Mawrth i 66% ym mis Mai 2020. Cofnodwyd cynnydd misol sefydlog yn y categorïau BBaCh Cyffredin, Cyson a Diogel am yr holl fisoedd yn 2020. At ei gilydd, mae'r llun yn ymddangos fel un cymysg.

Ffigur 13.

Cyfran y BBaCh yn ôl Risg Credyd yng Nghymru (%), Mehefin 2018 - Mai 2020




Ffynhonnell: FAME, Bureau van Dijk

Mae Ffigur 14 yn nodi sut y newidiodd cydrannau BBaCh yn y gwahanol categorïau risg a sectorau rhwng mis Mawrth a mis Mai 2020. Sylwch yn hyn o beth nad yw Ffigur 14 yn datgelu fawr ddim am faint cymharol y sectorau dan sylw. Dangosodd yr holl sectorau gynnydd yn y gyfran o BBaCh sy'n disgyn yn y categori Risg Uchel, gyda'r cynnydd mwyaf wedi'i gofnodi yn y sector cynradd a changhennau gwasanaethau amrywiol (banciau ac yswiriant, addysg, iechyd), nwy, dŵr a thrydan, yn ogystal â thrafnidiaeth a thelathrebu. Adeiladu a chyfanwerthu a manwerthu a gofnododd y

cynnydd mwyaf yn y categori Diogel. Yr unig categori a gofnododd ddirywiad yn yr holl sectorau oedd yr un Gofalus, gyda hyn yn adlewyrchu'r darlun cymysg yn ymwneud â newidiadau risg credyd BBaCh Cymru yn ystod hanner cyntaf 2020. Disgwylir bod rhywfaint o'r asesiad risg credyd yma yn ymwneud ag adroddiadau ariannol blynyddol sydd ar gael yn y chwarter cyntaf. Mae hyn yn golygu y bydd y sefyllfa sylfaenol mewn perthynas â newidiadau yn nifer y cwmnïau mewn gwahanol categorïau risg credyd o ganlyniad i bandemig Cofid-19 yn araf yn dod i'r amlwg.

Ffigur 14.
% Newid yng nghyfran y BBaCh yn ôl Risg Credyd a'r Sector yng Nghymru rhwng Mawrth a Mai 2020



Ffynhonnell: FAME, Bureau van Dijk

Mae'r adran hon yn crynhoi buddsoddiadau Banc Datblygu Cymru yn Ch4 2019/20 ac yn archwilio gweithgaredd blynyddol y Banc. Mae'r holl ddata yn yr adran hon wedi deillio o gronfa ddata Banc Datblygu Cymru.


256 o drafodion buddsoddi yn Ch4 2019/20.

Gwnaeth y Banc Datblygu 256 o drafodion buddsoddi yn Ch4 2019/20, i fyny o 148 yn Ch1 2019/20, 178 yn Ch2 2019/20 a 203 yn Ch3 2019/20 (Ffigur 15). Cyfanswm gwerth y buddsoddiad yn Ch4 oedd £33.6m, i fyny o £26.9m yn Ch3 2019/20, £21.9m yn Ch2 2019/20 a £21.1m yn Ch1 2019/20. Roedd swm

y buddsoddiad ar gyfartaledd yn debyg i'r swm yn nhri chwarter blaenorol 2019/20 (£130,000). Fe wnaeth y 256 buddsoddiad yn Ch4 2019/20 greu neu ddiogelu 1103 o swyddi, i fyny o 658 yn Ch3 2019/20, 590 yn Ch1 2019/20 a 446 yn Ch2 2019/20 (4.3 swydd fesul buddsoddiad).

Ffigur 15.

Trafodion buddsoddi a Swyddi wedi'u creu a'u diogelu, Ch1 2019/20 - Ch4 2019/20



Cyrhaeddodd cyfanswm buddsoddiad cronrus Banc Datblygu Cymru ar ddiwedd 2019/20 £689m...


... i fyny o £586m hyd ddiwedd 2018/19, gyda buddsoddiadau newydd o £103m yn 2019/20. Roedd benthyciadau yn cyfrif am 58% o'r cyfanswm hwn, gyda buddsoddiadau ecwiti yn cynrychioli 27%, a mesanîn y 15% sy'n weddill.

Twf cryf mewn buddsoddiad benthyciadau.

Cyfanswm buddsoddiad benthyciad oedd £29.7m, i fyny o £23.3m yn Ch3 2019 / 20 a £20m yn Ch2 2019 / 20, gan gynyddu am drydydd chwarter yn olynol (Ffigur 16). Cynyddodd buddsoddiad ecwiti ychydig o £3.6m yn Ch3 2019 / 20 i £3.9m yn Ch4 2019 / 20.

Ffigur 16.

Buddsoddiad Newydd yn ôl Math o Fuddsoddiad (£m), Ch1 2019/20 - Ch4 2019/20




Erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2019/20, mae 3,930 o fuddsoddiadau benthyciad wedi'u gwneud.

... gyda'r benthyciadau hyn yn gysylltiedig â gweithgaredd sydd wedi creu cyfanswm amcangyfrifedig o oddeutu 12,800 o swyddi, wrth ddiogelu tua 21,830 (Ffigur 17). Roedd mwy na 340 o fuddsoddiadau yn gysylltiedig ag ecwiti, gan greu dros 3,280 o swyddi a diogelu tua 2,330.

Ffigur 17.

Nifer cronus y buddsoddiadau a swyddi a grëwyd ac a diogelwyd hyd at ddiwedd 2019/20




Mae'r mwyafrif y buddsoddiadau wedi'u gwneud mewn gweithgynhyrchu erbyn diwedd 2019/20.

Gweithgynhyrchu oedd prif dderbynydd buddsoddiad cronus Banc Datblygu Cymru (£159m), ac yna sectorau adeiladu a TGCh (Ffigur 18). Yn ystod 2019/20, derbyniodd adeiladu fwyafrif y buddsoddiad (£41m), gan greu neu ddiogelu 430 o swyddi, gan

adlewyrchu'r cronfeydd cynyddol sy'n canolbwyntio ar eiddo. Dilynir hyn gan weithgareddau proffesiynol a gwyddonol (buddsoddiad o £11.8m a 270 o swyddi), a gweithgynhyrchu (buddsoddiad o £11.7m gyda 750 o swyddi).

Ffigur 18.

Gwerth buddsoddiad cronus a swyddi yn ôl sector hyd ddiwedd 2019/20




Yn 2019/20, derbyniodd busnesau yn Ne Ddwyrain Cymru y rhan fwyaf o'r buddsoddiadau a wnaed gan BDC.

Yn debyg i 2018/19, busnesau yn rhanbarth y De Ddwyrain oedd yn cyfrif am y gyfran fwyaf o'r holl fathau o fuddsoddiadau yn 2019/20 (Ffigur 19). Derbyniodd busnesau yn y De Ddwyrain fenthyciadau o £31.3m a £7.4m o

ecwiti. Derbyniodd busnesau yn y Canolbarth a'r De Orllewin £28.4m mewn benthyciadau a £6m mewn ecwiti, gyda busnesau yng Ngogledd Cymru yn derbyn £27.6m mewn benthyciadau a £2.7m mewn ecwiti.

Ffigur 19.

Buddsoddiad yn ôl Lleoliad (£m), 2019/20




Benthyciadau yw mwyafrif y buddsoddiadau ym mhob lleoliad erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2019/20 (Ffigur 20). Yn benodol, mae busnesau yn Ne Ddwyrain Cymru wedi derbyn £197m mewn benthyciadau a £111m

mewn ecwiti, busnesau yn y Canolbarth a'r De Orllewin wedi derbyn £111m mewn benthyciadau a £54m mewn ecwiti, a busnesau yng Ngogledd Cymru wedi derbyn £93m mewn benthyciadau a £25m mewn ecwiti.

Ffigur 20.

Buddsoddiad cronus erbyn diwedd 2019/20 yn ôl lleoliad (£m)




Roedd 2019/20 yn flwyddyn orau erioed o ran gwerth buddsoddiad uniongyrchol a BBaCh yn derbyn buddsoddiad, gyda throsoledd y sector preifat yn gostwng.

Yn 2019/20, cyfanswm buddsoddiad uniongyrchol oedd £103m a throsoledd y sector preifat oedd £76m. Hwn oedd swm uchaf erioed o fuddsoddiad mewn blwyddyn i Fanc Datblygu Cymru. Mae buddsoddiad newydd a throsoledd y sector preifat wedi tueddu i gynyddu ers 2011/12, ac eithrio 2017/18 a 2019/20 ar gyfer trosoledd preifat (Ffigur 21).

Ffigur 21.


Buddsoddiadau a throsoledd y sector breifat yn ôl blwyddyn ariannol (£m)



Mae Ffigur 22 yn dangos bod 2019/20 yn flwyddyn uchaf erioed o ran nifer y trafodion buddsoddi i BBaCh, gyda 785 o drafodion buddsoddi gan Fanc Datblygu Cymru yn ystod y flwyddyn, i fyny o 538 yn 2018/19. Mae Ffigur 22 hefyd yn dangos bod y swyddi a grëwyd ac a ddiogelwyd wedi gweld cynnydd blynyddol o 20% a 15%, yn y drefn honno. Fe greodd y buddsoddiadau o fewn blwyddyn 2019/20 963 o swyddi (i fyny o 800 yn 2018/19) a diogelu 2,308 (i fyny o 1,997 yn 2018/19).

Fodd bynnag, ni ellir cymharu effaith tymor byr y Cronfeydd wrth greu a diogelu swyddi â nifer y busnesau bach a chanolig sy'n derbyn buddsoddiad. Mae hyn oherwydd y dull casglu. Mae'r Banc Datblygu yn adrodd am swyddi a grëwyd ar gyfer Cronfa Busnes Cymru yn unol ag amodau Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Felly, ni chaiff swyddi a grëir yn rhinwedd buddsoddiad eu dal yn ystod y flwyddyn fuddsoddi nes eu bod yn cael eu gwirio ar ben-blwydd blwyddyn o fuddsoddi a phob 12 mis wedi hynny.

Ffigur 22.
Nifer y buddsoddiadau a'r swyddi a gafodd eu creu a'u diogelu



Mae buddsoddiad Banc Datblygu Cymru yn cael effeithiau economaidd rhanbarthol ehangach.

Nod yr adran hon yw darparu rhywfaint o ddadansoddiad ychwanegol yn ymwneud â natur a nodweddion buddsoddiadau Banc Datblygu Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20, ac ystyried effeithiau ehangach y buddsoddiadau hyn ar economi Cymru. Fel y crynhowyd yn yr adran flaenorol, buddsoddir i ystod amrywiol o BBaCh sydd wedi'u lleoli mewn gwahanol sectorau ac ardaloedd yng Nghymru. Mae'r BBaCh hyn yn cyfrannu at gyflogaeth ranbarthol, hunangyflogaeth, incwm a chyflogau, ac ar yr un pryd yn prynu nwyddau a gwasanaethau yn yr economi ranbarthol, ac felly'n cefnogi gweithgaredd economaidd ychwanegol yn yr economi ehangach. Mae'r dadansoddiad yn cynnwys cydran wedi'i modelu gan ddefnyddio fframwaith y tablau Mewnbyn-Allbyn ar gyfer Cymru¹, sy'n caniatáu amcangyfrif effeithiau incwm anuniongyrchol ac incwm ysgogedig sy'n gysylltiedig â gweithgaredd BBaCh penodol.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20, dosbarthwyd y symiau buddsoddi yn fwy cyfartal yn ôl rhanbarth Cymru o gymharu â 2018/19. Yn 2019/20 sicrhaodd rhanbarth y De Ddwyrain y gyfran fwyaf o fuddsoddiad newydd (37% o werth y buddsoddiad), ac yna Canolbarth a De Orllewin Cymru (33%) a Gogledd Cymru (29%). Fodd bynnag, roedd y lefelau uchaf o trosoledd o'r sector breifat (TSB) yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru (ar 40%, a gyda'r rhanbarth hwn yn ennill y TSB uchaf i ganran buddsoddi yn Ffigur 23) ychydig yn uwch na De Ddwyrain Cymru (37%) a gyda'r 24% sy'n weddill yng Ngogledd Cymru. Roedd lefel y TSB yn is na gwerthoedd buddsoddi Banc Datblygu ym mhob rhanbarth yn ystod 2019/20. Mae hyn yn cyferbynnu â'r flwyddyn ariannol flaenorol pan oedd gwerth cyffredinol TSB yn fwy na chyfanswm gwerth buddsoddiadau Banc Datblygu yng Nghymru.


Creu cyflogaeth am bob £100,000 o fuddsoddiad Banc Datblygu.

Yn ystod 2019/20 roedd mwy na hanner y swyddi a grëwyd neu a ddiogelwyd gan fuddsoddiadau Banc Datblygu yn Ne Ddwyrain Cymru, gyda thua 30% yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru a llai nag 20% yng Ngogledd Cymru. Mae Ffigur 23 yn cysylltu'r swyddi a grëwyd â swm y buddsoddiad ym mhob rhanbarth, yn ogystal â chyfanswm y swyddi (wedi'u creu a'u diogelu). Ar gyfartaledd, crëwyd neu diogelwyd 3.2 swydd yng Nghymru am bob £100,000 o fuddsoddiad yn 2019/20, gyda'r ffigur uchaf yn Ne Ddwyrain Cymru (4.4 o swyddi wedi'u creu neu eu diogelu fesul buddsoddiad o £100,000) a'r isaf yng Ngogledd Cymru (1.6 swydd am bob £100,000

buddsoddiad). Mae'n bwysig nodi bod yr effeithiau hyn yn rhai tymor byr yn unig ac yn ganllaw ceidwadol ar yr effeithiau yn ystod un flwyddyn ariannol. Yn ychwanegol at y swyddi a gefnogwyd yn 2019/20, bydd swyddi eraill yn cael eu creu a'u diogelu yn y blynyddoedd i ddod o ganlyniad i fuddsoddiadau a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2019/2020 (gweler yn gynharach). At hynny, mae Banc Datblygu Cymru yn derbyn enillion o fuddsoddiadau (ar ffurf ad-daliadau benthyciad ac allanfeydd ecwiti). Felly nid yw'r cyfrifiadau hyn yn cynrychioli 'cost fesul swydd' fel sy'n wir am grantiau i gefnogi datblygiad a thwf cadarn.

Ffigur 23.

Effeithiau uniongyrchol buddsoddiadau yn ôl rhanbarth 2019/20




Ffynhonnell: Banc Datblygu Cymru, Dadansoddiad arbennig

Mae Ffigur 24 yn cynnwys swyddi newydd a grëwyd fesul £100,000 o fuddsoddiad Banc Datblygu ym mhob rhanbarth, gan gymharu'r canlyniadau â'r flwyddyn ariannol flaenorol. Ychydig o newid sydd yn y data

ar gyfer rhanbarth y De Ddwyrain yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fodd bynnag, bu cynnydd bach yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru, a dirywiad yng Ngogledd Cymru.

Ffigur 24.

Swyddi newydd wedi'u creu fesul buddsoddiad BDC gwerth £100,000 yn ôl rhanbarth, 2018/19 a 2019/20




Ffynhonnell: Banc Datblygu Cymru, Dadansoddiad arbennig

Disgwylir i nifer y swyddi a gweithgaredd economaidd ehangach a gefnogir gan fuddsoddiadau Banc Datblygu ledled Cymru amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r effeithiau hyn yn cael eu pennu gan ddsbarthiad sectoraidd y buddsoddiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn a nodweddion y gweithgaredd economaidd hwnnw. Mae buddsoddiadau'n amrywio'n sylweddol o ran nifer y swyddi uniongyrchol a gefnogir gan grŵp sector / diwydiant, gydag amrywiadau pellach ar lefel gadarn o fewn y grwpiau hynny. Mae cyfraddau uchel o greu swyddi newydd fesul buddsoddiad o £100,000 ym mlwyddyn ariannol 2019/20 (fel uchod, effeithiau tymor byr yn unig yw'r rhain i'w cael yn sectorau mwy llafur-ddwys yr economi, er enghraifft, Llety a Bwyd (2.70), Addysg (16.9), Iechyd (6.3), y Celfyddydau (3.3) a gwasanaethau eraill (5.1). Mae lefelau is o greu cyflogaeth newydd fesul buddsoddiad o £100,000 i'w gael mewn sectorau mwy dwys o ran cyfalaf fel Gweithgynhyrchu (0.63).

Bydd yr effeithiau economaidd ehangach hefyd yn amrywio yn ôl sector. I amcangyfrif yr effeithiau hyn, defnyddiwyd manylion ar swyddi a grëwyd ac a ddiogelwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20 fesul sector ar y cyd â gwybodaeth am Werth Ychwanegol Gros y swydd (yn deillio o'r CDG yn ôl cyfrifon sector ac amcangyfrifon swyddi yn ôl sector o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol). Roedd hyn yn galluogi amcangyfrifon i ddeillio o GYG a gefnogwyd yn uniongyrchol gan fuddsoddiadau Banc Datblygu yn ôl sector. Bydd y gweithgaredd economaidd uniongyrchol hwn yn cefnogi GYG a swyddi eraill trwy effeithiau anuniongyrchol / cadwyn gyflenwi, yn ogystal â thrwy ail-wario incwm cyflogau yn economi Cymru. Defnyddiwyd fframwaith Mewnbyn-Allbyn Cymru i amcangyfrif yr effeithiau 'lluosydd' ehangach hyn, a dangosir y canlyniadau yn Ffigur 25.

Ffigur 25.

Effeithiau economaidd buddsoddiadau Banc Datblygu Cymru, 2019/20



Ffynhonnell: Banc Datblygu Cymru (dadansoddiad arbennig), Tablau Mewnbyn-Allbyn i Gymru

Mae mwy na £100 miliwn o fuddsoddiad Banc Datblygu a ddarperir i BBaCh yn 2019/20 cefnogi 964 o swyddi newydd yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r swyddi hyn yn gysylltiedig ag amcangyfrif o bron i £36m o GYG, gyda bron i £ 90m o GYG yn gysylltiedig â'r 2,307 o swyddi a ddiogelir, sy'n gyfanswm o GYG uniongyrchol o dros £125m, a 3,271 o swyddi. Pan gynhwysir effeithiau lluosydd y gweithgaredd economaidd hwn, mae hyn yn cynyddu i bron i £200m o GYG a mwy na 4,950 o swyddi.

Am bob £1m o fuddsoddiad Banc Datblygu o fewn blwyddyn 2019/20 gellir ei gysylltu ag amcangyfrif o £1.93m o GYG Cymru. Er bod yr amcangyfrifon hyn yn nodi arwyddocâd ehangach o fuddsoddiadau Banc Datblygu i economi Cymru, dim ond rhannol ydyn nhw. Yn gyntaf, mae'r amcangyfrifon GYG ac swyddi yn deillio o'r swyddi uniongyrchol (tymor byr) yn unig sy'n deillio o'r buddsoddiadau a wnaed yn 2019/20. Yn ail, yn ychwanegol at y ffigurau a amcangyfrifir yn Ffigur 25 gall fod effeithiau cynhyrchiant ac effeithiau cymdeithasol ehangach eraill hefyd. Mae'n anoddach meintoli'r rhain, ond byddant yn dod yn arbennig o bwysig yn y blynyddoedd i ddod wrth i fuddsoddiadau'r Banc Datblygu geisio cefnogi BBaCh y mae'r pandemig coronafirws yn effeithio arnynt.

Mae economïau'r DU a'r byd yn mynd i brofi cyfnod o ddirwasgiad, a chrebachu mewn cynhyrchu, buddsoddi a defnydd yn ystod 2020. Mae'r pandemig yn effeithio ar economi yng Nghymru sydd eisoes wedi'i gwanhau gan ansicrwydd economaidd sy'n deillio o drawsnewid o'r UE.

Mae tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yn dangos bod Cofid-19 yn effeithio'n sylweddol ar BBaCh yng Nghymru gyda mynegeion hyder yn disgyn i'r lefel isaf erioed yn Ch1 2020. Mae arolygon wedi nodi bod Cymru wedi arddangos y gyfran uchaf o BBaCh gyda throsiant yn dirywio ers mis Mawrth, a chyda busnesau bach a chanolig mewn hamdden, lletygarwch, cyfanwerthu ac adeiladu yn cael eu heffeithio fwyaf. Cymru oedd rhanbarth y DU gyda'r codiad canrannol uchaf o ddiddymiadau yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2020..

Mae galw BBaCh am gyllid wedi cynyddu. Mae pecynnau cymorth y llywodraeth ac iechyd gwell y system fancio wedi gwrthbwysu rhywbeth o amodau busnes gwael. BBaCh Cymru sydd â'r gyfradd uchaf o ymgeiswyr i Gynlluniau Llywodraeth y DU. Effeithir ar gyfalaf buddsoddi hefyd gan y pandemig a daw problemau yma ar ôl cyfnod o dwf yng Nghymru marchnadoedd credyd ac ecwiti BBaCh. Mae effeithiau argyfwng Cofid-19 hefyd yn cael eu harddangos yn rhannol mewn statws risg credyd, gyda chyfran y BBaCh yng Nghymru yn cwmpo yn y grŵp Risg Uchel yn cynyddu'n sylweddol, gyda chyllid, lletygarwch, trafndiaeth a thelathrebu, yn y sectorau sy'n cael yr effaith fwyaf difrifol.

Roedd blwyddyn ariannol 2019/20 yn nodi blwyddyn uchaf erioed o ran BBaCh yn derbyn buddsoddiad a gwerth buddsoddiad uniongyrchol gan y Banc Datblygu. Mae Banc Datblygu Cymru wedi chwarae rhan bwysig wrth gefnogi gweithgaredd BBaCh, gyda chyfanswm buddsoddiadau o dros £0.7bn er 2001, gan drosoli dros £0.9bn o'r sector preifat, a chreu neu ddiogelu dros 55,500 o swyddi yng Nghymru. Amcangyfrifon swyddi tymor hir yw'r rhain ac ni ellir eu cymharu â'r rhai yn yr AB hwn, sy'n canolbwyntio ar greu a chefnogi swyddi yn y tymor byr yn unig. Mae'r Adroddiad Blynnyddol hefyd yn darparu tystiolaeth ar effeithiau economaidd rhanbarthol ehangach buddsoddiadau a wnaed gan Fanc Datblygu Cymru. Amcangyfrifir bod y buddsoddiadau a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20 wedi cefnogi cyfanswm o bron i £200m o GYG yng Nghymru a dros 4,950 o swyddi. Bydd deall graddfa a natur yr effeithiau hyn yn arbennig o bwysig yn y blynnyddoedd i ddod wrth i'r Banc Datblygu ddarparu buddsoddiadau i fusnesau bach a chanolig yr effeithiwyd arnynt gan bandemig coronafirws.

Mae'r Banc Datblygu bellach yn wynebu'r her o ddarparu cyllid benthyciad ac ecwiti ar adeg dyngedfennol i BBaCh Cymru. Mae lansiad Cynllun Benthyciad Busnes Cymru COFID-19 wedi gweld galw mawr, ac wedi datgelu rhywbeth o'r manteision i ranbarth o gael banc datblygu pwrpasol yn ystod sioc economaidd.

Dirnad Economi Cymru
Economic Intelligence Wales



bancdatblygu.cymru
developmentbank.wales

Development Bank of Wales Plc (Banc Datblygu Cymru ccc) is the holding company of a Group that trades as Development Bank of Wales. The Group is made up of a number of subsidiaries which are registered with names including the initials DBW. Development Bank of Wales Plc is a development finance company wholly owned by the Welsh Ministers and it is neither authorised nor regulated by the Prudential Regulation Authority (PRA) or the Financial Conduct Authority (FCA). The Development Bank of Wales (Banc Datblygu Cymru ccc) has three subsidiaries which are authorised and regulated by the FCA. Please note that neither the Development Bank of Wales Plc (Banc Datblygu Cymru ccc) nor any of its subsidiaries are banking institutions or operate as such. This means that none of the group entities are able to accept deposits from the public. A complete legal structure chart for Development Bank of Wales Plc can be found at [developmentbank.wales](https://www.developmentbank.wales).